










Yn glocwedd o'r chwith i'r dde: Michael® Starring Ben, y Dr John Cooper Clarke, Love Actually, Bale Gwladol a Cherddorfa Rwsiaidd Siberia, Boney M

# Cynnwys


## 02-03
**Dan sylw**
Awgrymiadau digwyddiadau Actifyddion Artistig a bwyd blasus at eich ymweliad.

## 04-06
**Proffil**
Daw Bale Gwladol Rwsiaidd a Cherddorfa Siberia â thri bale hudol i'r Neuadd dros y Nadolig.

Llorio Lloerigrwydd Dolig – rhowch adloniant byw yn bresant.

## 07-29
**Ar Fynd**
Manylion yr holl ddigwyddiadau tan gamp yn y Neuadd ym misoedd Rhagfyr 2018 ac Ionawr 2019 a Maes o Law.

## 30-32
**Gwybodaeth am Godi Tocynnau**
Sut i godi'ch tocynnau a manylion ein disgowntiau.


**Dilynwch ni ar Twitter:**
**twitter.com/NeuaddDewiSant**

**Rydym ni ar Facebook:**
**www.facebook.com/NeuaddDewiSant**

Os nad oes arnoch bellach eisiau cael manylion digwyddiadau i ddod yn y New Theatre/Neuadd Dewi Sant, cysylltwch â'n swyddfa docynnau ar 02920 87 84 44 a gofyn am gael eich tynnu oddi ar ein rhestr bost. Mae Cyngor Caerdydd yn gofrestredig gyda'r Swyddfa Comisiynwyr Gwybodaeth, rhif Z5832396.

# Dan Sylw

Ychwanegion y Gyfres Cyngherddau Rhyngwladol




## YCHWANEGION Y GYFRES CYNGHERDDAU RHYNGWLADOL
## SGYRSIAU CYN CYNGHERDDAU

Gael i chi fwynhau fwy fyth y digwyddiadau gwych yn y Gyfres Cyngherddau Rhyngwladol rydym yn cynnig Sgyrsiau Cyn Cyngherddau awr cyn y cyngherddau. Mae'r sgyrsiau hanner awr poblogaidd a chydnaws hyn yn rhoi cip i chi ar y gerddoriaeth a chyd-destun y perfformiad ac maen nhw'n ffordd dan gamp o wneud yn fawr o'ch profiad yn y cyngerdd.

Ymhlith y siaradwyr mae:
Jonathan James – Yn gyflwynydd i lawer o gerddorfeydd o fri ac yn sylfaenydd a chyfarwyddwr y Bristol Pre-Conservatoire, mae Jonathan yn tynnu ar ei brofiad arwain a dysgu i ddod â darlithoedd brwd i oedfannau o gwmpas gwledydd Prydain.

y Dr Keith Chapin – Brodor o Alaska yw'r Dr Chapin sy'n darlithio mewn cerddoriaeth ym Mhrifysgol Caerdydd ac sy'n ganwr amatur prysur.

Hedd Thomas – Hedd yw Dramodydd Nicolas John i Opera Cenedlaethol Cymru ac mae hefyd yn gyfansoddwr ac yn newyddiadurwr cerddoriaeth rhyngwladol ar ei liwt ei hun.

### Y Gyfres Cyngherddau Rhyngwladol: Artistiaid Ifainc

Cyn pob cyngerdd byddwn yn croesawu perfformwyr ifainc o ysgolion cerdd y rhanbarth i lwyfan dydd Lefel 3. Mae'r bobl ifanc hyn ar ddechrau eu taith gerddorol a fydd efallai, ddydd a ddaw, yn dod â nhw i'r brif Neuadd gyngerdd.

### Y GYFRES CYNGHERDDAU RHYNGWLADOL: MAPIAU FFORDD CERDDORIAETH GLASUROL (AM DDIM)

**LEFEL 1 – IAU 18FED HYDREF 2018/ IAU 21AIN MAWRTH 2019**

Mae Jonathan James yn mynd â chi ar daith wib drwy ddau gan mlynedd a hanner o gerddoriaeth glasurol, o fynaich yr Oesoedd Canol i gampweithiau modern. Ac iddo eglurebau byw difyr ar y piano a chymysgedd o bigion sain, bydd y cyflwyniad ysgafnfryd yma'n gaffaeliad i chi ddirnad hanes cerddoriaeth glasurol ac yn eich cyflwyno chi i lond byd newydd o wrando. Addas i'r newyddian llwyr a hen lofiau o gyngherddwyr fel ei gilydd.

## Actifyddion Artistig

### CYNLLUN CYFANSODDWYR IFAINC – LEFEL 1

Ydych chi rhwng pymtheg a deunaw oed? Ymunwch â'n Cynllun Cyfansoddwyr Ifainc i ddatblygu eich sgiliau cyfansoddi, lle byddwch chi'n gweithio gyda chyfansoddwyr ac offerynwyr proffesiynol.

### GAMELAN CAERDYDD

Mawrth 6-8pm
Mae repertoire Gamelan Caerdydd, ensemble gamelan cymuned oedolion Neuadd Dewi Sant, yn cynnwys cyfansoddiadau traddodiadol Java a chyfansoddiadau o'r gorllewin i'r gamelan. Mae croeso i aelodau newydd ymuno â'r cylch gallu cymysg yma, waeth beth fo'u profiad blaenorol.

### SESIYNAU BLASU'R GAMELAN I YSGOLION

Mae'r sesiynau'n para dwyawr fel arfer ac maen nhw ar gael drwy gydol y tymor, yn ddelfrydol i gyfnod allweddol 2 ymlaen.

**Am ragor o wybodaeth rhowch ganiad i 029 2087 neu 8572 neu e-bostio artsactive@cardifff.gov.uk**

## Ciniawa

# LLEFYDD I FWYTA

Mae Bwyty'r Sêr ar gael i'w hurio'n breifat. Am wybodaeth, cysylltwch â 02920 878463 st.davidshallcatering@cardiff.gov.uk

Mae dewis blasus o Tapas ar gael yn aml yn Lolfa Lefel 3.

I weld pryd mae Tapas ar gael bwriwch olwg ar y prif gofnodion yn y llyfryn neu'r wefan a chwilio am y symbol glas.


**Tapas yn Lolfa L3** Pob platiad £4.50



# Y LOLFA JIN

Mae ein Lolfa Jin foethus newydd sbon danlli grai ar agor i bob perfformiad gyda'r hwyr yn yr Awditoriwm. Ar y pedwerydd llawr, yn cynnig dewis o dros ddeng math ar hugain o jin, gwirodydd gyda'r gorau, coctels a champagne – hwyl a fflagen! Byddwn hefyd yn cynnig gwinoedd blasus, mwy eto o gwrw crefft a dewis gwych o ddiodydd meddal.

Gobeithio y byddwch wrth eich bodd gyda'r bar newydd bendigedig yma.




**RYDYM YN Y LOLFA'N YFED JIN**

Raymond Gubbay yn cyflwyno

# Bale Gwladol a Cherddorfa Rwsiaidd Siberia

Yn dilyn tymor aruthrol y llynedd daw cwmni bale mawr ei glod Rwsia yn ei ôl ac i'w ganlyn pedwar bale swynol ac iddyn nhw setiau newydd hudol fydd yn eich cipio i fyd hud a lledrith bendigedig!

**Snow Maiden**
**The Nutcracker**
**Swan Lake**
**Cinderella**

Perfformir gan
**Fale Gwladol Rwsiaidd Siberia**

I gyfeiliant
**Bale Gwladol Rwsiaidd Siberia**



## Snow Maiden

Wedi'i seilio ar chwedl werin draddodiadol, yn nhirwedd cefn gwlad Rwsia dan orchudd eira, mae'r stori Nadolig befriol yma'n dilyn y Forwyn Eira fel y mae'n dawnsio i fyd dynion.

Meddai'r beirniaid...
*'It is glittering white and silver....'*

**19 Rhagfyr 7.00pm**
**20 Rhagfyr 2.00pm & 7.00pm**



## The Nutcracker

A hithau'n nosi ar Noswyl Nadolig y cychwynna hwn, y bale ffantasi enwocaf oll i'r teulu i gyd. A'r plu eira'n disgyn y tu allan, mae antur gyffrous yn ymagor ac yn arwain i fan dan gyfaredd lle mae'r hud yn cychwyn go iawn...

Meddai'r beirniaid...
*'...the scenery turned the stage into a winter wonderland'*

**21 Rhagfyr 2.00pm & 7.00pm**
**22 Rhagfyr 2.00pm & 5:30pm**
**23 Rhagfyr 2.00pm & 5:30pm**
**24 Rhagfyr 2.00pm**



## Bale Gwladol a Cherddorfa Rwsiaidd Siberia

Ym 1981 y ffurfiwyd Bale Gwladol Rwsiaidd Siberia a buan yr enillodd ei blwy yn un o gwmnïau bale blaenllaw Rwsia a chael y gair drwy'r gwledydd o draddodi perfformiadau aruthrol o raenus ac anarferol o ddwfn. Mae'r unawdwyr a'r corps de ballet yn odidog, yn swyno cynulleidfaoedd yn ddi-feth â'u gallu corfforol sy'n ddigon i fynd â'ch gwynt chi a'u gwisgoedd pefriol.

**Sergei Bobrov** Cyfarwyddwr Artistig
**Anatoly Tchepurnoi** Cyfarwyddwr Cerddoriaeth a Phrif Arweinydd



## Swan Lake

Dyma fale rhamantaidd mwya'r oesoedd a sgôr atgofus fythgofiadwy Tchaikovsky yn ffrydio drwyddo.

Meddai'r beirniaid...
*'The production is a triumph'*

**27 Rhagfyr 2.00pm & 7.00pm**
**28 Rhagfyr 2.00pm & 7.00pm**
**29 Rhagfyr 2.00pm & 5:30pm**



## Cinderella


Dyma hoff stori'r byd o blith straeon tylwyth teg carpiau i gyfoeth lle mae breuddwydion yn cael eu gwireddu, yn glasur modern fydd yn swyno'r teulu i gyd.

**30 Rhagfyr 2.00pm & 5:30pm**
**31 Rhagfyr 2.00pm**

Prisiau o £17.50 a mwy i berfformiadau 2.00pm a £19.50 i berfformiadau 5.30pm a 7.00pm
Gostyngiadau ar gael – gweler y manylion llawn ar dudalen 15.

# Proffil






Pwy sy'n dweud bod rhaid i siopa Dolig fod yn hen helcyd? Gwnewch Dolig yn llai lloerig a rhoi rhywbeth nad aiff byth dros gof. O ddewis tocynnau i unrhyw un o'n digwyddiadau penigamp (cofiwch ofyn am gerdyn anrheg cyflwyno pan godwch y tocynnau) cewch eich siopa wedi'i lapio'n ddel, heb drafferth o fath yn y byd.

**Dyma rai cynigion:**

12 Ionawr
**Michael® starring Ben**

19 Ionawr
**Classic Elvis**

10 Chwefror
**Karl Jenkins: Cyngerdd Pen Ei Flwydd yn Bymtheg a Thrigain**

17 Chwefror
**Anton & Erin**

20 Chwefror
**Trixie Mattel**

26 Mawrth
**Dan Snow**

27 Mawrth
**Julian Clary**

5 Ebrill
**Collabro**

6 Ebrill
**Henning Wehn**

7 Mai
**Katherine Jenkins**

23 Mai
**Soul Legends with Lemar**

1 Mehefin
**Wallace & Gromit's Musical Marvels**

**I weld manylion ein digwyddiadau i gyd ewch i stdavidshallcardiff.co.uk**

**SADWRN 1** 7.30pm



# Boney M

## Taith y Deugeinmlwyddiant

Un o'r enwau mwyaf chwedlonol o Oes Disgo'r Saith Degau, yn fyw mewn sioe brin, yn dathlu deugain mlynedd ers 1978 pan oedd yn frenin y tonnau awyr, a *Rivers Of Babylon* y sengl werthodd fwyaf erioed yng ngwledydd Prydain.

Gewch chi ddisgwyl clywed yr holl glasuron disgo werthodd filiynau lawer gan gynnwys *Brown Girl in the Ring, Daddy Cool, Rasputin, Sunny, Ma Baker, Belfast, Painter Man, Hooray Hooray It's a Holiday, Gotta Go Home, Rivers of Babylon* a llond gwlad at hynny.

**£31.50**
Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 32

**SUL 2**
Drysau 7.00pm



# y Dr John Cooper Clarke

## Taith Luckiest Man Alive

### A Gwesteion Arbennig

Dyma hoff fardd gwledydd Prydain yn perfformio stondin syfrdanol y gair llafar. A dyma gyfle i weld John yn perfformio deunydd clasurol a newydd sbon danlli grai ac yntau'n cloddio i'w ôl-gatalog enfawr, yn ogystal ag i'w gasgliad toreithiog o waith newydd, y cwbl yn cael ei ddarllen o'i lyfrau nodiadau siwps arwyddnod, a'i draddodi yn null chwedlonol John fel mellten i bren yn ei araflais Salford eiconig. Rhowch hyn ynghyd â sylwadau digri dat ddagrau John, ei jôcs a'i sgwrs wallgo hurt bost a rhwng pob peth dyma'r cyfle i weld chwedl fyw ar ei gorau oll.

Mae John Cooper Clarke yr un mor berthnasol a bywiog ag erioed, a'i ddylanwad yr un mor amlwg ar ddiwylliant pop. Mae ei ddylanwad hefyd i'w glywed yn sylwadau cymdeithasol dychanol a brathog artistiaid megis Plan B a'r Arctic Monkeys.

Hefyd yn gwmni i John bydd y gwestai arbennig, y digrifwr mawr ei glod Simon Day, fydd yn perfformio fel y bardd o Swydd Efrog Geoffrey Allerton.

**£21.50 | £27.00 | £34.50**
Defnyddwyr cadeiriau olwyn (ynghyd ag un cydymaith):
Seddi'r stalau £21.50 yr un.
Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 32

# Ar Fynd

**LLUN 3** 7.30pm




## Love Actually:

**Taith Gyngerdd Fyw yng ngwledydd Prydain gyda Cherddorfa Lawn**

Yn dilyn taith a werthodd bob tocyn yn 2017, dangosir *Love Actually* unwaith eto'n fyw ar sgriniau drwy hyd a lled gwledydd Prydain gyda cherddorfa lawn yn perfformio'i sgôr hudol – yn union mewn pryd ar gyfer y Nadolig!

Richard Curtis gyfarwyddodd *Love Actually* a ryddhawyd gyntaf yn y pictiwrs yn 2003, yn adrodd deg hanes ar wahân ond sydd eto'n cyd-weu – straeon caru adeg y Nadolig - gyda chast sy'n sêr pob copa walltog yn cynnwys Hugh Grant, Colin Firth, Emma Thompson, Keira Knightley a llawer at hynny.

**£41.50 | £51.50 | £67.00**

Defnyddwyr cadeiriau olwyn (ynghyd ag un cydymaith): Seddi'r stalau £41.50 yr un.

Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 32

**MAWRTH 4** 7.00pm



## John Wilson a'r John Wilson Orchestra

At The Movies

**gyda'r gwestai arbennig Kim Criswelll**

Daw chwip o gerddorfa John Wilson, yn ddeg darn a thrigain, yn ei hôl ac i'w chanlyn ei sioe newydd sbon danlli grai 'At The Movies'. Enillodd y Gerddorfa ei phlwy drwy'r gwledydd yn perfformio repertoire o oes aur dramâu cerdd Hollywood a Broadway a cherddoriaeth i'r sgrîn fawr. Yn gwmni iddi bydd yr unawdydd gwadd Kim Criswell mewn noson wych o gerddoriaeth a chaneuon godidog.

**£24.50 | £30.00 | £36.50**
**£41.00 | £46.00**

Defnyddwyr cadeiriau olwyn (ynghyd ag un cydymaith): Seddi'r stalau £24.50 yr un.

Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 32

TAPAS GWELER TUDALEN 03

**IAU 6** 7.30pm




## Handel: Messiah

Cerddorfa a Chorws Cenedlaethol Cymreig y BBC

**Stephen Layton *arweinydd***
**Katherine Watson *soprano***
**Iestyn Davies *uwchdenor***
**Gwilym Bowen *tenor***
**Neal Davies *baswr***

**Corws Cenedlaethol Cymreig y BBC**

O'i agorawd fygythiol hyd at 'Amenau' gorfoleddus y cytgan terfynol, mae *Messiah* Handel yn heigio gan ddigwyddiadau a chyferbyniadau. Mae'n gwefreiddio bob gafael.

Sgwrs Cyn y Cyngerdd 6.30 (dalwyr tocynnau).

**£15.00 – £41.00**

Tocynnau Mantais a Thocynnau Teulu ar gael.

Ar Werth yn Awr

TAPAS GWELER TUDALEN 03

**GWENER 7** 1.00pm



# Cyngerdd Awr Ginio

## Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru

**Pres y Nadolig**

**y Dr Robert Childs *arweinydd***

Daw'r cyngerdd poblogaidd yma sydd i'r dim i'r teulu yn ei ôl i'r Neuadd ar awr ginio eto yn heigio gan garolau traddodiadol a ffefrynnau'r tymor – does dim dau na fyddwch yn morio canu. Yr union ffordd i ddianc rhag ias y gaeaf a ffair a ffwndwr siopa Dolig!

**£6.00 ymlaen llaw**
**£7.00 ar y diwrnod**
Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £1.00 yn rhatach (gweler tudalen 30).

Ar Werth yn Awr

1-2 blas ar gerddoriaeth

hynt Tudalen 32

**GWENER 7** 7.30pm



# Cerddorfa Ffilharmonig Caerdydd

## Noson yn y Pictiwrs 2018

**Michael Bell MBE *arweinydd***

Y Gerddorfa'n perfformio'r cyngerdd poblogaidd yma sy'n ddetholiad o gerddoriaeth o gorwyntoedd o ffilmiau megis *Back to the Future, Star Trek: Into Darkness, Jurassic World* a *Star Wars: The Last Jedi.*

Mae'r rhaglen yn cynnwys cerddoriaeth o *The Blues Brothers, The Pink Panther* a *Breakfast at Tiffany's*, yn ogystal â detholiad o ganeuon clasurol o'r Clasuron gan Disney *Mary Poppins, Beauty and the Beast* a *The Lion King.*

**£7.00 – £24.00**
Tocynnau Mantais Ar Gael.

Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 32

**SADWRN 8**
3.00pm & 7.30pm



# Addewid y Nadolig

Mae Addewid y Nadolig yn rhan reolaidd o dymor y Nadolig yn Neuadd Dewi Sant bob blwyddyn ers 2000. Dewch aton ni eto eleni, a lluoedd enfawr Côr a Cherddorfa Cambrensis a Chôr Mawl Dewi Sant yn dod â cherddoriaeth y Nadolig atoch sy'n addas i'r teulu i gyd.

Bydd Côr Ieuenctid Addewid y Nadolig, sy'n swyno bob gafael, yn canu ym mherfformiad y pnawn a gyda'r hwyr daw'r soprano Katy Treharne atom.

**£12.00 | £14.00**
Rhai Gostyngiadau'n Berthnasol.
Ar Werth Yn Awr

hynt Tudalen 32

TAPAS GWELER TUDALEN 03
(perfformiad yr hwyr yn unig)

**SUL 9** 3.00pm



## The Sixteen at Christmas

**Harry Christophers**
***arweinydd***

Dyma The Sixteen, un o grwpiau corawl perffeithiaf ein dydd – 'tiny soundbite of heaven' chwedl *The Times* – yn dod yn ei ôl i'r Neuadd ac i'w ganlyn rhaglen Nadolig gyfareddol sy'n myfyrio uwch themâu diniweidrwydd a pheryg. Dewch i forio mewn pnawn o gerddoriaeth arddunol – trêt tymhorol i'r dim.

**£25.00**
Cyfeillion Neuadd Dewi Sant, Hawlwyr, Pobol anabl (ynghyd ag un cydymaith), Defnyddwyr cadeiriau olwyn (ynghyd ag un cydymaith): £19.00 yr un. Myfyrwyr £5.00 yr un. Plant dan 16: am ddim gyda phob tocyn oedolyn pris llawn. Tocynnau plant dros ben £5.00 yr un.

Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 32

**LLUN 10** 7.00pm



## Stondin Caerffili 2018

Dewch aton ni i ddathlu dawn Cerddoriaeth Ieuenctid Caerffili, yn rhoi llwyfan i ensembles a chorau o bob cwr o'r sir. Maen nhw'n perfformio dewis eang o gerddoriaeth Nadolig gan y Big Band, y Band Roc, Corau a Cherddorfeydd.

**£8.00 | £9.00 | £10.00**
Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £1.00 yn rhatach (gweler tudalen 30).

hynt Tudalen 32

**MAWRTH 11** 7.00pm



## Gwasanaeth Cerddoriaeth Sir Caerdydd a Bro Morgannwg

Stondin Nadolig

Dyma ddathu'r Nadolig yng nghwmni disgyblion o Wasanaeth Cerddoriaeth Sir Caerdydd a Bro Morgannwg ac ysgolion o bob cwr o Gaerdydd a'r Fro, yn dwyn llawenydd i'r byd. Cerddorfeydd, bandiau, cantorion a chôr yn llu i godi hwyl ar dymor y Nadolig.

**£8.00 | £9.50 | £12.00**
Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £1.00 yn rhatach (gweler tudalen 30).

hynt Tudalen 32

**MERCHER 12** 7.30pm

# Cyngerdd Nadolig o Gerddoriaeth y Tymor a Charolau

er budd Apêl Arch Noa

**Noson o gerddoriaeth Nadolig yn rhoi llwyfan i:**
**Jane Watts – Organ**
**Ensemble Pres y Gwarchodlu Cymreig**
**Côr yn Llu Ysbytai Cymru**
**Artist Gwadd – i'w gyhoeddi**
**Dan arweiniad David J Davies**

Ysgol Gynradd leol fydd yn cwblhau'r gymanfa.

Cofiwch ddod â'ch llais i'ch canlyn i gefnogi'r cyngerdd Nadolig blynyddol yma i'r teulu er budd Apêl Arch Noa.

**£10.00 | £12.00 | £13.00**
Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £10.00 yr un. Grwpiau o 10 neu fwy: pob tocyn £1.00 yn rhatach.

hynt Tudalen 32

**IAU 13** 7.30pm




# The Rat Pack at Christmas

**Stephen Triffitt** fel Frank Sinatra
**Mark Adams** fel Dean Martin
**George Daniel Long** fel Sammy Davis Jr
**The Golddiggers** a'r **Manhattan Swing Orchestra**

Yn eu holau o fawr alw amdanynt ac ar ôl perfformiadau werthodd bob tocyn drwy'r byd yn grwn, mae'r **Definitive Rat Pack** yn dod â noson o glasuron yr ŵyl atoch chi, yn cynnwys *White Christmas, Baby It's Cold Outside, The Christmas Song* a *Let It Snow*, a ffefrynnau'r oesoedd yn cynnwys *I've Got You Under My Skin, That's Amore, Mr Bojangles* a *New York, New York*. Ffordd dan gamp o godi hwyliau'r Nadolig arnoch chi!

**£30.00 | £31.50**
Defnyddwyr cadeiriau olwyn (ynghyd ag un cydymaith): Seddi'r stalau £30.00 yr un.
Ar Werth yn Awr

**SADWRN 15 & LLUN 17**
10.30am & 12.30pm



# Y Prom Tidli

Bert and Cherry's Christmas Plum Pudding

**Lefel 1**

Trêt Dolig gan dîm y Prom Tidli: Bert, Cherry a llawer o'u ffrindiau cerddorol yn dod at ei gilydd i gael hwyl a sbri. Mae'r sioe gerddorol fyw ryngweithiol yma'n cynnwys caneuon o dri Prom Tidli poblogaidd Bert ochr yn ochr â ffefrynnau Dolig.

Bu Bert yn brysur yn hwylio at Dolig, mae Cherry'n dod i roi help llaw i roi'r twtshis olaf i'r addurniadau a bydd eu ffrindiau i gyd yn picio i mewn hefyd. Fel pob amser gewch chi ddisgwyl stori fywiog a llond gwlad o ganeuon gwirion i chi gael morio canu.

**£7.50**
Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 32

# Ar Fynd

**SADWRN 15** 3.00pm




## City Voices Cardiff

### Cyngerdd Dolig y Dengmlwyddiant

**Dathlu Dolig corawl deng mlynedd o City Voices Cardiff**

Ers eu début yn Neuadd Dewi Sant yn 2013 mae City Voices Cardiff yn swyno cynulleidfaoedd â'u cyngherddau ym mis Rhagfyr sy'n cynnig dewis eang o gerddoriaeth i godi hwyliau'r ŵyl arnoch.

Felly beth allwch ei ddisgwyl gan eu Cyngerdd Dolig y Dengmlwyddiant? Wel i chi, dewisodd y côr eu hoff ganeuon o'r deng mlynedd aeth heibio i gyflwyno dathliad i'r dim o'r hyn mae City Voices Cardiff yn ei wneud orau – eu Hits Dolig Mwyaf – hyd yn hyn!

**£13.00**
Iau na 12: £5.00 yr un. Myfyrwyr, Pobol dros eu 60, Plant 12-18: £10.00 yr un. Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 32

**SUL 16** 3.00pm



## BBC Wales Carolau i'r Nadolig

### Adrian Partington – arweinydd

**Cerddorfa a Chorws Cenedlaethol Cymreig y BBC**
**Côr Ysgolion yn Llu**

Daw cyngerdd Nadolig blynyddol BBC Wales yn ei ôl i Neuadd Dewi Sant ac ynddo ddewis o garolau poblogaidd, darlleniadau gan gyflwynwyr BBC Wales a chôr yn llu o blant ysgol gynradd..

**£5.00**
Ar Werth 29 Hydref

hynt Tudalen 32

**LLUN 17** 7.30pm



## The Bootleg Beatles

### Mewn Cyngerdd

Mae band Teyrnged enwoca'r byd i'r Beatles yn cael clod y beirniaid o bedwar ban byd am ail-greu'n syfrdanol lyfr caneuon mwya'r oesoedd. Yn olrhain taith y Ffab Ffôr drwy'r chwe degau, mae pob manylyn bychan bach i'r dim, o'r gwisgoedd hyd at yr offerynnau cyfnod dilys; o'u smaldod 'Sgows' ffraeth hyd at eu dynwared lleisiol 'perffaith ei oslef'.

Nid y Beatles mohonyn nhw… ond choeliech chi fawr!

**£33.50**
Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £1.00 yn rhatach (gweler tudalen 30). Grwpiau 10+: pob tocyn £1.00 yn rhatach.
Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 32

Raymond Gubbay yn cyflwyno

# Bale Gwladol a Cherddorfa Rwsiaidd Siberia

Bale Gwladol a Cherddorfa Rwsiaidd Siberia yn perfformio pedwar bale hudol i ddathlu'r Nadolig. Mae'r unawdwyr a'r corps de ballet yn cael y gair drwy'r gwledydd o draddodi perfformiadau graenus a dwfn i'w rhyfeddu, ac maen nhw'n swyno'n ddi-feth â'u gallu corfforol sy'n ddigon i fynd â'ch gwynt chi.

Bydd y cwmni'n cyd-asio bydoedd traddodiadol a digidol â llwyfannu dychmygus yn defnyddio golygfeydd trawiadol ynghyd â hud technoleg fodern.



**Sergei Bobrov Cyfarwyddwr Artistig**
**Anatoly Tchepurnoi Cyfarwyddwr Cerddoriaeth a Phrif Arweinydd**



# Snow Maiden

**Mercher 19** **7.00 pm**
**Iau 20** **2.00pm & 7.00pm**

Yn ddiogel rhag y byd mawr dan nawdd y Tad Barrug, mae'r Forwyn Eira feindlos yn chwarae'n ddiniwed ymhlith y plu eira sy'n dawnsio yng Ngwlad y Barrug dan gyfaredd. Wedi'i seilio ar chwedl werin draddodiadol, mae'r stori Nadolig befriol yma'n dilyn y Forwyn Eira fel y mae'n dawnsio i fyd dynion. Mae'r pentre lliwgar a'r bobl sy'n byw yno'n ei swyno, mae'n ei mentro hi'n rhy bell ac yn cael ei sgubo gan deimladau cariad, temtasiwn a brad.



# The Nutcracker

**Gwener 21** **2.00pm & 7.00pm**
**Sadwrn 22** **2.00pm & 5.30pm**
**Sul 23** **2.00pm & 5.30pm**
**Llun 24** **2.00pm**

A hithau'n nosi ar Noswyl Nadolig y cychwynna hwn, y bale ffantasi enwocaf oll. A phlu eira'n disgyn y tu allan, mae gwrid cynnes y tân agored yn gyrru cysgodion neidiol ar draws cangau'r goeden Nadolig a'r holl anrhegion oddi tani. Ar ben hanner nos cawn ein sgubo ymaith i fyd hud a lledrith lle nad oes dim byd yn union fel yr ymddengys: doliau tegan yn dod yn fyw ar amrantiad, Brenin y Llygod a'i fyddin yn brwydro â'r Tywysog Gefail Gnau ac awn ninnau ar daith drwy Wlad yr Eira i fan dan gyfaredd lle mae'r hud yn cychwyn go iawn.



# Swan Lake

**Iau 27** **2.00pm & 7.00pm**
**Gwener 28** **2.00pm & 7.00pm**
**Sadwrn 29** **2.00pm & 5.30pm**

Dyma fale rhamantaidd mwya'r oesoedd a sgôr atgofus fythgofiadwy Tchaikovsky yn ffrydio drwyddo. O ysblander trawiadol neuadd ddawns y Palas i'r llyn lloergan lle mae elyrch yn nofio mewn trefn berffaith, mae yn yr hanes cymhellol yma, stori carwriaeth drasig, bopeth a ddymunech chi. Mae rôl ddeublyg Odette, brenhines yr elyrch yn curo'i hadenydd yn deimladol ddwys, ac Odile, y demtwraig yn ei rhwydwe ddu, yn un o heriau technegol mwyaf bale ac yn werth ei gweld.



# Cinderella

**Sul 30** **2.00pm & 5.30pm**
**Llun 31** **2.00pm**

Dyma hoff stori'r byd o blith straeon tylwyth teg carpiau i gyfoeth, yn gymysgedd hudol o sgôr egnïol Prokofiev, coreograffi bywiog a gwisgoedd lliwgar. Tra mae ei mam wen wallgo ddrwg a'i llyschwiorydd difaners yn ymbincio i fynd i'r Ddawns Frenhinol, ni all Cinderella osgeiddig ond breuddwydio am ddawnsio gyda'r pishyn o Dywysog. Yn ddiweddarach y noson honno mae ei charpiau'n mynd yn wisg befriol a hithau'n cael ei sgubo drwy hud i'r Ddawns lle mae'n mynd â holl fryd y Tywysog. Mae hi'n taro'r hanner nos ac wedi darganfod un sliper grisial goll, rhaid iddo bellach gychwyn ar daith i gael hyd i'w gariad coll.



## Prisiau Tocynnau

**Perfformiadau 2.00pm**

Oedolyn: £17.50 – £38.00

Plant dan: £8.25 – £19.00

Tocyn Teulu (2 Oedolyn a 2 o blant dan 16 oed): £46.50 – £108.50

Tocyn Platinwm: £46.50
*(yn cynnwys y sedd orau sydd ar gael yn Rheng 1, cofraglen a hufen iâ)*

**Perfformiadau 5.30pm & 7.00pm**

Oedolyn: £19.50 – £41.00

Plant dan: £9.25 – £20.50

Tocyn Teulu (2 Oedolyn a 2 o blant dan 16 oed): £52.50 – £115.50

Tocyn Platinwm: £48.50
*(yn cynnwys y sedd orau sydd ar gael yn Rheng 1, cofraglen a hufen iâ)*

### Disgowntiau a Thocynnau Mantais

*(heb fod ar gael ar Docynnau Platinwm)*

Cyfeillion Neuadd Dewi Sant, myfyrwyr, pobol dros eu 60, pobol ddi-waith, hawlwyr, pobol anabl (ynghyd ag un cydymaith): pob tocyn £2.00 yn rhatach (ac eithrio 22 a 29 Rhagfyr am 2.00 pm).

Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau am y pris oedolyn isaf i'r perfformiad hwnnw.

### Gweld Mwy, Talu Llai

Codwch docynnau i unrhyw ddau fale ar yr un pryd ac arbed 20% pris llawn tocynnau oedolion.
*(Mae'r cynnig ac eithrio pobol dros eu 60/plant/myfyrwyr/hawlwyr/tocynnau teulu/Platinwm a Chŵn Caer)*

### Grwpiau

Grwpiau o 10 neu fwy: pris llawn oedolion 20% yn rhatach a thocyn am ddim i drefnydd y grŵp (ac eithrio Tocynnau Platinwm). I godi tocynnau grŵp, rhowch ganiad i'r Swyddfa Docynnau ar 02920 878444.

Ar Werth yn Awr

# Ar Fynd

**SADWRN 5** 7.30pm



## Beyond the Barricade

Ers mwy na degawd mae **Beyond the Barricade** yn swyno cynulleidfaoedd drwy hyd a lled gwledydd Prydain a thir mawr Ewrop â'i bortread cyngerdd cyffrous o'r caneuon mwyaf mewn theatr gerdd, i gyd yn cael eu perfformio'n hollol fyw!


Mae'r cast yma o brif berfformwyr gynt o *Les Misérables* yn ail-greu'n rhyfeddol o ddilys ganeuon gwreiddiol o ddramâu cerdd y West End a Broadway ac yn cyflwyno corwynt o sioe ddwyawr sydd bellach wedi ennill ei phlwy'n hoff gyngerdd theatr gerdd y genedl.

**£24.00**

Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £2.00 yn rhatach (gweler tudalen 30).Cynnig Cŵn Caer: pob tocyn £3.00 yn rhatach o'u codi cyn 31 Hydref (nid yw tocynnau mantais eraill yn berthnasol).

hynt Tudalen 32

**GWENER 11** 8.00pm




## The Circus of Horrors

Meddyliwch am sioe roc ddisglair ynghyd ag actau Syrcas anhygoel, rhyfeddol, rhyfygus a'r cwbl yn cael ei berfformio â thafod fforchog yn ddiysgog ym mhob boch.

Mae'r cast aruthrol a gythrodd i rowndiau terfynol *Britain's Got Talent* bellach yn hit yn y West End ac ym mhedwar ban byd. Yn mynd â chi ar reid colli cylla, yn llyncwyr cleddyfau, pennaf lwynogesau taflu'r croesfwa a'r gyllell, divas hwla hwpio fflamllyd, hongwyr gwallt, dynion cryfion, acrobatiaid troellwynt, ystumwyr cyfrodedd, awyrgampwyr bygythiol, yr Hud tywyllaf oll a hylltod at hynny.

**£20.00 | £22.00 | £24.00 | £28.00**

Myfyrwyr, ceiswyr gwaith a phensiynwyr: pob tocyn y ddau bris drutaf £3.00 yn rhatach. Cynnig Stlumod y Bore Bach: pob tocyn £3.00 yn rhatach o'u codi erbyn 11 Tachwedd (un gostyngiad y tocyn).

Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 32

**SADWRN 12** 7.30pm



# Michael® starring Ben

## The Magic of Michael Jackson

Teyrnged syfrdanol a hudol i Frenin Pop, Michael Jackson, ydi Michael® Starring Ben.

Mae'r cynhyrchiad arobryn yma'n cynnwys band byw anhygoel, gwisgoedd trawiadol, actau dawns eiconig ac wrth gwrs Ben, sydd heb ei ail. Mae'r sioe'n addo'n deg greu o'r newydd yn fywiog ac yn rymus ac o waed coch cyfan yr archseren eiconig fel nas gwelsoch erioed o'r blaen.

Mae Michael® Starring Ben yn dwyn ynghyd gydasiad newydd yn cymysgu elfennau o sioeau llwyfan Michael Jackson ei hun â threfniannau newydd cyffrous ar y cyd â sioe oleuadau digon i fynd â'ch gwynt chi i ddathlu i'r dim Michael a'i gerddoriaeth.

**£25.00 | £28.00 | £30.00**

Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £25.00 yr un.

Ar Werth yn Awr

YMWADIAD:
Cofiwch mai cynhyrchiad teyrnged yw hwn heb na chymeradwyaeth na chysylltiad ag Ystad Michael Jackson.

hynt Tudalen 32

**MAWRTH 15** 8.00pm



# Gwrando'r Gwreiddiau

## Martin Carthy a John Kirkpatrick

Dyma'r trysorau cenedlaethol Martin Carthy a John Kirkpatrick yn ei chychwyn hi ar daith ddeuawd brin yng ngwledydd Prydain. Mae'r gitarydd a'r canwr gwerin, Carthy, a'r pencerddor consertina a'r canwr, Kirkpatrick, ill dau'n ddehonglwyr blaenllaw traddodiadau gwerin Lloegr ac yn cydweithredu ers tro byd mewn amrywiaeth o fentrau cerddorol arloesol: o albwm alawon Morys eiconig John o'r flwyddyn 1976, *Plain Capers*, drwy Steeleye Span hyd at Brass Monkey.

**£14.50 ymlaen llaw**
**£15.50 ar y diwrnod**

Roots Unearthed — World rhythms @ the Hall | hynt Tudalen 32 | L3

**IAU 17** 7.30pm



## Côr Plant Affrica

**Helpu plant mwyaf bregus Affrica heddiw...
...fel y gallan nhw helpu Affrica yfory**

Drwy eu llais a'u cerddoriaeth mae plant Côr Plant Affrica™ yn mynd ag Affrica at weddill y byd. Ers dros naw mlynedd ar hugain mae'r côr yn perfformio drwy hyd a lled Gogledd America a gwledydd Prydain. Mae gan bob plentyn stori; daeth mwy o alaeth i'w rhan ym more'u hoes nag a wêl y rhan fwyaf ohonom ar hyd ein hoes.

Ac eto mae gan bob un obaith am a ddaw. Mae eich cefnogaeth yn gaffaeliad i godi ysgolion a chyflenwi addysg drwy hyd a lled Affrica, yn Uganda, Rwanda, Sudan, Nigeria, Ghana, Kenya a De Affrica.

**£9.00 | £10.00 | £11.00 | £12.00**
Iau na 12: £5.00 yr un.

hynt Tudalen 32

**GWENER 18** 7.30pm




## Stephen Hough yn chwarae Beethoven

**Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC**

**Thomas Søndergård *arweinydd***
**Stephen Hough *piano***
**Catriona Morison *mezzo***

**Beethoven *Concerto Piano Rhif 4***
**Mahler *Rückert Lieder***
**Mahler *Symffoni Rhif 10 Adagio***

Synfyfyrion gwefreiddiol ydi caneuon 'Rückert' Mahler, ar themâu harddwch, angau a merthyrdod. Mae symudiadau agoriadol pedwerydd concerto Beethoven yn fyfyrgar, yn pennu'r hwyliau i'r dim.

Sgwrs Cyn y Cyngerdd 6.30pm (dalwyr tocynnau).

**£15.00 – £41.00**
Tocynnau Mantais a Thocynnau Teulu ar gael. Ar Werth yn Awr

TAPAS GWELER TUDALEN 03

**SADWRN 19** 7.30pm



# Elvis Clasurol

## Cerddorfa Ffilharmonig Caerdydd

**John Quirk *arweinydd***
**Ciaran Houlihan**
**Michael Glaysher**

Yn dilyn ei première penigamp, daw Elvis Clasurol yn ôl i Neuadd Dewi Sant yn 2019, y tro yma gyda'r artist teyrnged arobryn o Wyddel Ciarán Houlihan. Unwaith eto bydd y sioe'n rhoi llwyfan i'r Graceland Band a Cherddorfa Ffilharmonig Caerdydd dan arweiniad John Quirk. Mae'r cyngerdd hefyd yn cynnwys set Sun Studio a Ffilm gan Michael Glaysher.

**£27.00**
Dan 18: £9.00 yr un o'u codi gyda thocyn oedolyn.
Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 32

**SUL 20** 7.30pm




# Back to Bacharach

Mae Back to Bacharach yn falch o gyflwyno The Very Best of Burt Bacharach yn dathlu 'The Hitmaker' y tu ôl i un o lyfrau caneuon Americanaidd mwya'r Ugeinfed Ganrif.

Dewch aton ni i ddosbarth meistr melodi a chaneuon gwych sy'n eli i'r galon a ddaeth yn drac sain ein bywydau, ynghyd â pherfformiadau digon i fynd â'ch gwynt chi gan ein canwyr o'r West End a dawn gerddorol syfrdanol y Magic Moments Orchestra.

Mae'r sioe ddi-ball o hits clasurol yn cynnwys *Alfie, What The World Needs Now, Do You Know The Way To San Jose* a llawer at hynny.

**£23.50 | £25.00**
Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 32

**LLUN 21** 7.30pm



## Golden Girls mewn Cyngerdd

### Lesley Garrett, Bonnie Langford a Maria Friedman

Am y tro cyntaf erioed mae **Golden Girls** yn dathlu tair o ferched sioe mwyaf ein dydd a'u degawdau ar y llwyfan a'r sgrîn. Yn rhannu straeon eu bywydau drwy gân, mae'r albwm a'r sioe fyw yn dathlu cyfeillgarwch, merched cryfion ym mlodau'u dyddiau a'r llawennydd, y chwerthin a'r dagrau mae bywyd yn eu dwyn yn ei sgìl.

Nick Patrick (*Ball and Boe*, *Elvis with the RPO, Roy Orbison*) ydi cynhyrchydd yr albwm a'r sioe, fydd yn cynnwys detholiad o draciau hoff megis: *The Way We Were* (Streisand), *That's What Friends are For* (Dionne Warwick*), I Know Him So Well (*o Chess*), Send in the Clowns* (Sondheim), *Music* (John Miles), *When she loved me* (*Toy Story*), *Slipping through my fingers* (Abba) *Magic Moments* a *Down Town*.

**£29.50 | £39.50 | £47.00 | £57.00**
**Cwrdd a Chyfarch: £87.00**
Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £29.50.
Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 32

**MAWRTH 22** 1.00pm



## Cyngerdd Awr Ginio

### Isata Kanneh-Mason – piano

Mae Isata Kanneh-Mason yn fyfyriwr israddedig yn y Royal Academy of Music, yn astudio'r piano gyda Carole Presland, wedi dyfarnu iddo Ysgoloriaeth o fri Syr Elton John. Perfformiodd gydag Elton John yn Los Angeles yn 2013 ac roedd yn rownd derfynol Categori'r Piano yng Nghystadleuaeth Cerddor Ifanc y BBC 2014. Mae wedi perfformio'n eang drwy hyd a lled gwledydd Prydain a thramor a darlledu sawl gwaith ar y teledu a'r radio. Heddiw bydd yn perfformio Preliwdiau Cyflawn Chopin.

**£6.00 ymlaen llaw**
**£7.00 ar y diwrnod**
Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £1.00 yn rhatach (gweler tudalen 30).

1-2 blas ar gerddoriaeth

hynt Tudalen 32

**MAWRTH 22** 8.00pm



# Capital City Jazz Orchestra

## gyda Mike Lovatt

Yn 2007 y ffurfiwyd y Capital City Jazz Orchestra ac mae ynddi gerddorion Jazz ymhlith y goreuon yn Ne Cymru. Yn gwmni iddyn nhw heno mae'r Utganwr byd-enwog, Mike Lovatt. Mae Mike yn utganwr blaen gyda'r BBC Big Band ac mae galw mawr amdano'n gerddor ym myd sesiwn Llundain a bydd i'w glywed mewn clasuron Big Band oedd ar frig y siartiau, gan Billy May a Duke Ellington a'u tebyg.

www.ccjo.co.uk
FB: Capital City Jazz Orchestra
Twitter: @CCJOswing

**£14.00**
Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £2.00 yn rhatach (gweler tudalen 30). Myfyrwyr a Phlant dan 16: £7.00 yr un. Grwpiau o 10 neu fwy: pob tocyn £2.00 yn rhatach. Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 32

**MERCHER 23** 7.30pm



# The Classic Rock Show

O AC/DC hyd at ZZ Top a phopeth rhyngddyn nhw, gan gynnwys Led Zeppelin, Dire Straits, Queen, yr Eagles, Lynyrd Skynyrd a Meatloaf a llond gwlad ar hynny.

Y naill anthem ar ôl y llall, y naill riff ar ôl y llall, y naill unawd ar ôl y llall, mae **The Classic Rock Show** yn rhoi bywyd o'r newydd ar lwyfan i'r recordiadau gwreiddiol, a sioe sain a goleuadau enfawr i'w canlyn. Yn dod i ben mewn gornest gitarau sy'n ddigon i stopio'r sioe ac yn bendifaddau'n rhy dda i'w cholli.

Gem o sioe roc – dolur gwddw does dim dau!

**£26.50**
A nifer gyfyngedig o docynnau Cylch Aur drutach ar gael: £36.50 yr un.
Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 32

**IAU 24** 7.30pm



# Sandi Toksvig Live! National Trevor

Mae Sandi Toksvig yn dod â'i sioe gomedi un wraig, newydd sbon danlli grai, i'r Neuadd.

Yn nhyb Sandi mae'r enw 'National Treasure' braidd yn embaras ac mae wedi penderfynu, yn hytrach, bod yn National Trevor – yn hanner gwall argraffu, yn hanner digrifwraig, nofelydd, actor a darlledwr o Ddaniad.


Gewch chi ddisgwyl straeon asgwrn pen llo, ffeithiau cyfareddol o ddigri, jôcs hurt bost a phobi trybeilig gan lywydd *Great British Bake Off, QI* a *15to1*. Peidiwch â disgwyl na dawnsio tap, na gwaith gwnïo na'i gweld yn sefyll ar ei phen.

Canllaw Oedran 14+

**£21.00 | £26.00**
Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 32

**GWENER 25** 7.30pm




## Luther – A Celebration of Luther Vandross


Sioe benna'r byd sy'n dathlu'r 'Llais Melfed'. Dewch i glywed yr hits i gyd mewn gyrfa anhygoel oedd yn cynnwys llawer o'r anthemau dawns a'r caneuon serch mwyaf a sgrifennwyd erioed, yn dod i ben mewn dros ddeugain miliwn o werthiannau albymau ac wyth gwobr Grammy.  Ar flaen y sioe mae Harry Cambridge, y deyrnged ryngwladol i Luther Vandross, a'i fand deg darn.

*Never Too Much, Here and Now, Give Me the Reason, I Really didn't mean it, Stop to Love, So Amazing, The Best Things in Life Are Free, Always and Forever, Endless Love, Ain't No stoppin' Us Now* a llaweroedd ar ben hynny.

**£24.50**
Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 32

**SADWRN 26** 7.30pm




## The Johnny Cash Roadshow

### Sioe Hanner Canmlwyddiant San Quentin

Gyda chymeradwyaeth y teulu Cash! Dyma berfformiad untro hanner canmlwyddiant y sioe chwedlonol yn San Quentin ym 1969, a wêl berfformio caneuon o'r albwm ochr yn ochr â hits a hoff ganeuon. Heb flewyn ar dafod dyma ddathliad gorau Johnny Cash drwy'r byd yn grwn yn ein dydd. Dim ond ar daith eleni – peidiwch â'i golli!

**£23.00 | £25.00**
Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £1.50 yn rhatach (gweler tudalen 30).
Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 32

**SUL 27** 3.00pm




# Cerddorfa Opera Cenedlaethol Cymru

**Carlo Rizzi** ***arweinydd***
**Alexander Sitkovetsky** ***ffidil***

**Mendelssohn** ***Agorawd, The Hebrides Fingal's Cave***
**Rachmaninov** ***Symffoni Rhif 2***

Rhoi tro am yr Alban yn haf 1829 a ysbrydolodd Mendelssohn ac mae ei forlun cyfarwydd yn bortread godidog o hallt o dawelwch diawel ac ymchwydd yr Iwerydd yn llygad y ddrycin o gwmpas Mull, un o Ynysoedd Heledd. Mae gwaith Bruch, sydd fel concerto, yn heigio gan alawon gwerin yr Alban a chofiwch ddisgwyl clywed deffro'r bagbibau yn y cof hefyd!


Mae'r rhaglen frwd yma'n dod i ben yn Ail Symffoni Rachmaninov sy'n odidog o delynegol – yn gymhellol, yn eli i'r galon ac yn wefreiddiol, yn gorfforiad y symffoni Ramantaidd.

2.00pm Sgwrs Am Ddim Cyn y Cyngerdd – Lefel 1.

**£10.00 – £41.00**
**Tocyn Platinwm: £49.50**
(yn cynnwys sedd gyda'r gorau yn Rheng 1, gwydraid o Prosecco a rhaglen). Rhai Gostyngiadau'n Berthnasol.
Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 32

**MAWRTH 29** 1.00pm



# Cyngerdd Awr Ginio

## Sean Shibe – Gitâr

Yng Nghaeredin, ym 1992, o dras Seisnig a Japaneaidd, y ganed Sean ac astudiodd yn Conservatoire Brenhinol yr Alban a chyda'r athro ysbrydoledig Paolo Pegoraro yn yr Eidal. Yn ugain oed daeth y gitarydd cyntaf i'w ddethol i gynllun Artistiaid y Genhedlaeth Newydd BBC Radio 3, a'r unig gitarydd solo y dyfarnwyd iddo Gymrodoriaeth Ymddiriedolaeth Borletti-Buitoni. Fe'i detholwyd gan Ymddiriedolaeth Artistiaid Clasurol Ifainc yn 2015.

Mae'r rhaglen heddiw'n cynnwys gweithiau gan Villa-Lobos a Bach.

**£6.00 ymlaen llaw**
**£7.00 ar y diwrnod**
Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £1.00 yn rhatach (gweler tudalen 30). Ar Werth yn Awr

1-2 blas ar gerddoriaeth

hynt Tudalen 32

# Ar Fynd

**MAWRTH 29** 7.30pm



## Martyn Joseph

Mae Martyn Joseph yn ddawn ddihafal a yrrir gan angerdd, ymwybyddiaeth gymdeithasol a chariad at ei grefft, yn ganwr gitâr digon i'ch llorio chi a feithrinodd arddull daro heb ei hail, ynghyd â môr o lais grymus, ac fe'i galwyd yn 'Springsteen Cymru'.

Mae ganddo ddawn brin, sef gallu llefaru â'r enaid â'i eiriau cyfleugar a dwysbigol ac mae ei yrfa ar fynd ers dros ddeng mlynedd ar hugain, deuddeg albwm ar hugain, gwerthiannau recordiau dros hanner miliwn a miloedd o berfformiadau byw.

**£18.00 ymlaen llaw**
**£19.00 ar y diwrnod**
Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £2.00 yn rhatach (gweler tudalen 30). Iau nag 16: £5.00 yr un.
Aelodau REACT: £10.00 yr un.
Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 32

**IAU 31** 7.30pm




## Psychic Sally
### Taith y Dengmlwyddiant

Mae'r seicig fyd-enwog, y seren teledu a'r theatr a hoff gyfrwng arobryn gwledydd Prydain, Sally Morgan, yn ei hôl, yn well nag erioed ac i'w chanlyn sioe lwyfan ryngweithiol aruthrol ei Dengmlwyddiant. Dyma noson heb ei hail sy'n rhy dda i'w cholli. Codwch eich tocynnau'n awr i weld y seicig ryfeddol yma'n bwrw iddi.

Sioe ymchwiliol yw hon ac at ddiben adloniant.

**£26.00**
Grwpiau o 10 neu fwy: pob tocyn £2.00 yn rhatach.
Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 32

## CHWEFROR 2019

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sadwrn 2 | | 7.30pm | **Coleen Nolan*** |
| Iau 7 | | 7.30pm | **Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC*** |
| Gwener 8 | | 7.30pm | **ELO Again*** |
| Sul 10 | | 3.00pm | **Karl Jenkins: Cyngerdd Pen ei Flwydd yn Bymtheg a Thrigain*** |
| Llun 11 | Drysau | 7.00pm | **Clwb Ifor Bach yn cyflwyno John Grant ac Eraill*** |
| Mawrth 12 | | 7.30pm | **Gŵyl Ffilmiau Mynydd Banff (y Rhaglen Goch)** |
| Mercher 13 | | 7.30pm | **Steve Steinman's Vampires Rock*** |
| Iau 14 | | 7.30pm | **London Sinfonietta a Synergy Vocals*** |
| Sul 17 | | 3.00pm | **Anton & Erin***<br>Those Magical Musicals |
| Mawrth 19 | | 8.00pm | **Gwrando'r Gwreiddiau***<br>Jim Moray |
| Mercher 20 | Drysau | 7.00pm | **Trixie Mattel – Skinny Legend!!!!*** |
| Iau 21 | | 7.30pm | **Cerddorfa Symffoni India*** |
| Sadwrn 23 | | 7.30pm | **Taith Fare thee Well*** |
| Mawrth 26 | | 8.00pm | **hwyrgerdd – Duo Bayanello & Trio Anima***<br>Lolfa L3 |
| Mercher 27 | | 7.30pm | **y Dr Michael Mosley*** |




Mercher 13 Chwefror 2019, 7.30pm

* Ar Werth yn Awr

# Maes o Law

**MAWRTH 2019**

| | | |
|---|---|---|
| Gwener 1 | 7.30pm | **Cerddorfa a Chorws Cenedlaethol Cymreig y BBC*** |
| Sul 3 | 7.30pm | **Shakin' Stevens*** |
| Mawrth 5 | 8.00pm | **Gwrando'r Gwreiddiau**<br>Juan Martin* – Lolfa L3 |
| Mercher 6 | 7.30pm | **Cerddorfa Ffilharmonig Oslo** * |
| Sadwrn 9 | 8.00pm | **Brit Floyd*** |
| Sul 10 | 7.30pm | **Taith 2019 Paul Carrack*** |
| Mercher 13 | 8.00pm | **No Such Thing as a Fish*** |
| Iau 14 | 7.30pm | **The Sensational 60s Experience*** |
| Mercher 20 | 7.30pm | **Cerddorfa Opera Cenedlaethol Cymru*** |
| Iau 21 | 3.00pm | **The Classical Music Road Maps*** |
| | 7.30pm | **Mike & The Mechanics*** |
| Gwener 22 | 7.30pm | **Noson yn y Proms***<br>Cerddorfa Ffilharmonig Caerdydd |
| Mawrth 26 | 7.30pm | **Dan Snow*** |
| Mercher 27 | 7.30pm | **Julian Clary*** |
| Iau 28 | 7.30pm | **Gŵyl Ffilmiau Mynydd Banff (y Rhaglen Las)** |
| Gwener 29 | 7.30pm | **Royal Philharmonic Orchestra*** |

**EBRILL 2019**

| | | |
|---|---|---|
| Mercher 3 | 7.30pm | **Stairway to Heaven: Led Zeppelin Masters*** |
| Iau 4 | 7.30pm | **Ex Cathedra Consort & Baroque Ensemble**<br>**His Majesty's Sagbutts & Cornetts*** |
| Gwener 5 | Drysau 7.00pm | **Collabro*** |
| Sadwrn 6 | 7.30pm | **Henning Wehn: Get On With It*** |
| Mawrth 9 | 8.00pm | **hwyrgerdd**– Ensemble Berkeley* – Lolfa L3 |
| Mercher 10 | 7.30pm | **Woman to Woman***<br>Judie Tzuke, Beverley Craven & Julia Fordham |
| Iau 11 | 7.30pm | **Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC*** |
| Iau 18 | 7.30pm | **That'll Be The Day*** |
| Gwener 19 | 8.00pm | **hwyrgerdd*** Lolfa L3 |
| Mercher 24 | 8.00pm | **George*** |
| Iau 25 | 7.30pm | **Beatrice Rana*** |
| Gwener 26 – Sul 28 | Amryw Oriau | **Zog*** |
| Mawrth 30 | 8.00pm | **Gwrando'r Gwreiddiau**<br>Flook* – Lolfa L3 |

* Ar Werth yn Awr

## MAI 2019

| | | |
|---|---|---|
| Mercher 1 | 7.30pm | **Cerddorfa Siambr yr Undeb Ewropeaidd*** |
| Sadwrn 4 | 7.30pm | **Remembering the Movies*** |
| Llun 6 | 8.00pm | **Rumours of Fleetwood Mac*** |
| Mawrth 7 | 7.30pm | **Noson yng Nghwmni Katherine Jenkins*** |
| Iau 9 | 7.00pm | **Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC*** |
| Mawrth 14 | 8.00pm | **hwyrgerdd – Liam Byrne a NASduo***<br>Lolfa L3 |
| Sadwrn 18 | 7.30pm | **The Hallé*** |
| Iau 23 | 8.00pm | **Soul Legends*** |
| Mawrth 28 | 8.00pm | **Capital City Jazz Orchestra***<br>Lolfa L3 |

## MEHEFIN 2019

| | | |
|---|---|---|
| Sadwrn 1 | Amryw Oriau | **Gweithdai Gwneud Modelau Gromit***<br>Lefel 1 |
| | 1.30pm &<br>6.00pm | **Wallace & Gromit's Musical Marvels*** |
| Llun 3 | 8.00pm | **Al Murray*** |
| Iau 6 | 7.30pm | **Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC*** |
| Gwener 7 | 8.00pm | **Stewart Francis*** |
| Mawrth 25 | 7.30pm | **Prosiect Planets y Philharmonia*** |
| Sadwrn 29 | 7.30pm | **Cerddorfa Ffilharmonig Caerdydd*** |

## AWST 2019

| | | |
|---|---|---|
| Sadwrn 31 | 8.00pm | **The Dreamboys – Taith 2019 yng ngwledyd Prydain*** |

## MEDI 2019

| | | |
|---|---|---|
| Gwener 13 | 7.30pm | **What's Love Got To Do With It?*** |
| Llun 23 –<br>Mercher 25 | 8.00pm | **Brydon, Mack and Mitchell*** |

## HYDREF 2019

| | | |
|---|---|---|
| Sadwrn 5 | 8.00pm | **Rob Beckett – Wallop*** |
| Llun 7 | 7.30pm | **Les Musicals*** |
| Mawrth 29 &<br>Mercher 30 | 7.30pm | **Tim Minchin*** |

* Ar Werth yn Awr






# Collabro

**Gwener**
**5ed Ebrill 2019**
Drysau 7.00pm






# Cadwch Mewn Cysylltiad ac Mewn Cywair – Dewch yn Gyfeillion Pennaf!

## FFURFLEN GAIS CYFEILLION NEUADD DEWI SANT

Enw: ______________________

Cyfeiriad: ______________________

Cod Post: ______________________

Teleffon (yn ystod y dydd): ______________________

Teleffon (gyda'r nos): ______________________

Cofiwch roi cyfeiriad e-bost i ni fel y gallwn roi gwybod i chi'n syth pan fydd sioeau newydd ar werth rhwng llyfrynnau.

Ebost: ______________________

Taliad (ticiwch fel y bo'n briodol
Rydw i'n amgáu siec/archeb bost yn daladwy i:
CYNGOR CAERDYDD am £18 am flwyddyn gyntaf fy aelodaeth o'r Cyfeillion

A wnewch chi godi £18 ar fy Mastercard ☐ Visa ☐
Switch ☐ Delta ☐

Cod Sicrwydd ☐
(y tri rhif olaf ar gefn eich cerdyn)

Rhif y Cerdyn:
☐☐☐☐ ☐☐☐☐ ☐☐☐☐ ☐☐☐☐

Dyddiad Cychwyn: ______________________

Dyddiad Terfyn: ______________________

Rhif cyhoeddi (Switch yn unig) ______________________

Llofnod Deiliad y Cerdyn ______________________

# **Gwybodaeth** am godi tocynnau

**Swyddfa Docynnau: 029 2087 8444**
**Codi tocynnau ar lein 24 awr y dydd – www.stdavidshallcardiff.co.uk**
Gweinyddu: 029 2087 8500
Ebost: SDHboxoffice@cardiff.gov.uk

Gewch chi bellach ddewis eich sedd eich hun pan fyddwch chi'n codi tocynnau ar lein.

Mewn rhai digwyddiadau, oherwydd y nifer o gwsmeriaid yn y Swyddfa Docynnau, efallai y bydd gofyn i ni stopio gwerthu tocynnau i ddigwyddiadau diweddarach hanner awr cyn rhagfyrhrau perfformiad.

**Mae codi tocynnau yn hawdd**
Mae'r Swyddfa Docynnau ar agor ddydd Llun tan ddydd Sadwrn 9.30am tan chwarter awr ar ôl rhagfyrhrau'r perfformiad (neu 5.30pm pan nad oes perfformiad – ym mis Awst), ddyddiau Sul a Gwyliau Banc awr cyn y perfformiad i bobl sy'n dod yn bersonol yn unig.

**Ffôn** ar 029 2087 8444. Gewch chi dalu ar eich union gyda chardiau debyd neu gredyd neu gadw'ch tocynnau a thalu cyn pen tridiau. Rydym yn derbyn cardiau Mastercard, Visa, Switch a Delta. Dydym ni ddim, fodd bynnag, yn derbyn cardiau Solo nac Electron. I osgoi posibilrwydd ciwiau hir, cofiwch gasglu tocynnau wedi talu amdanynt ymlaen llaw o leiaf hanner awr cyn rhagfyrhrau'r perfformiad. Mae'r llinellau teleffon yn cau hanner awr cyn amser cau'r Swyddfa Docynnau.

**POST** ysgrifennwch atom ni yn **Neuadd Dewi Sant, Yr Aes, Caerdydd, CF10 1SH** gyda manylion cyflawn ynghylch eich gofynion gan gynnwys y man eistedd sydd orau gennych ac unrhyw ddisgowntiau sy'n berthnasol. Rhowch eich enw, eich cyfeiriad, eich cod post a'ch rhif ffôn yn ystod y dydd ac amgaewch siec yn daladwy i Gyngor Caerdydd neu fanylion eich cerdyn (gan gynnwys y dyddiad terfyn a rhif dosbarthu Switch), ac amlen â stamp a chyfeiriad er mwyn anfon eich tocynnau.

**AR LEIN** awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Ymwelwch â www.stdavidshallcardiff.co.uk

Mae'r gwasanaeth yma'n berthnasol i'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau unwaith y bydd y cyfnod codi tocynnau cyffredinol wedi rhagfyrhrau. Nid yw llefydd cadeiriau olwyn ar gael ar lein. A wnewch chi roi caniad i'r Swyddfa Docynnau i wneud yn siŵr fod eich seddi yn cwrdd â'ch gofynion penodol.

**Neu gallwch e-bostio'ch gofynion o ran tocynnau atom ni yn SDHboxoffice@cardiff.gov.uk**

**Yn Wyrdd Amdani** – Ymunwch â'n rhestr e-bost a chael yr wybodaeth ddiweddaraf am sioeau a chynigion yn syth i'ch blwch derbyn. Ymgofrestrwch yn www.stdavidshallcardiff.co.uk

**Amddiffyn Data**
Pan fyddwch chi'n codi tocynnau i Neuadd Dewi Sant cadwir eich gwybodaeth bersonol ar system gyfrifiadurol y Swyddfa Docynnau. Drwy godi tocynnau rydych chi'n caniatáu cadw'ch gwybodaeth bersonol yn unol â'r Deddfau Amddiffyn Data. Gofynnir i chi a geir defnyddio'r wybodaeth yma:

- i roi gwybod i chi am ddigwyddiadau neu ddatblygiadau i ddod yn New Theatre neu Neuadd Dewi Sant;
- i'w rhoi i gyrff eraill yn y celfyddydau yn ne Cymru – a allai gynnwys Theatr Sherman, Canolfan Mileniwm Cymru, CBCDC, National Theatre Wales, Canolfan Celfyddydau Chapter, Opera Cenedlaethol Cymru, Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, Sinfonia Cymru a Ballet Cymru - at ddiben tebyg;
- gan gyrff heb fod yn y celfyddydau, wedi'u dethol yn ofalus, at ddiben rhagor o wybodaeth a allai fod o ddiddordeb i chi.

Gofynnir i chi ddweud pa ddewisiadau sy'n dderbyniol gennych. Bydd hyn yn rhoi lle i ni brosesu eich gwybodaeth bersonol yn unol â'ch dymuniadau.

Gellir rhannu gwybodaeth codi tocynnau cwsmeriaid (ac eithrio manylion cardiau credyd) ag asiantaethau allanol at ddiben dadansoddi. Bydd Neuadd Dewi Sant yn gwneud popeth rhesymol i sicrhau diogelwch data oddi mewn i'r broses yma.

Mae prosesau Neuadd Dewi Sant yn cydymffurfio â Deddf Amddiffyn Data 1998.

Rheolir, cynhyrchir a gweithir ein gwefannau a'n Hysbysebion Swyddogol gan Neuadd Dewi Sant o'n swyddfeydd yn y Deyrnas Unedig. Nid yw Neuadd Dewi Sant yn dweud ar gyfrif yn y byd fod y deunydd a'r wybodaeth ar ein gwefan neu y gellir eu cyrchu drwyddi nac yn addas nac ar gael i'w defnyddio mewn Gwledydd eraill y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

**Tocynnau Mantais**
*Mae'r tocynnau mantais sy'n dilyn yn berthnasol i sioeau sy'n crybwyll gostyngiadau yn y panel prisiau:* Cyfeillion Neuadd Dewi Sant, Plant dan 16, Myfyrwyr, *Pobl dros eu 60, Pobl anabl (ynghyd ag un cydymaith) a Hawlwyr. Dim ond un disgownt y tocyn y cewch ei ddefnyddio ac mae gofyn prawf o'ch statws. A wnewch chi ddweud pa ddisgownt rydych chi'n ei hawlio pan fyddwch chi'n codi'ch tocyn.

Caiff defnyddwyr cadeiriau olwyn (ynghyd ag un cydymaith) godi tocynnau seddi'r stalau am y pris isaf mewn sioeau sy'n crybwyll y gostyngiad yma. Nid yw llefydd cadeiriau olwyn ar gael bob amser a dylid eu cadw nhw trwy'r Swyddfa Docynnau, nid ar lein, er mwyn sicrhau cwrdd ag anghenion penodol y cwsmeriaid.

**Tocynnau Myfyrwyr**
Mae tocynnau hanner pris hefyd ar gael i gyngherddau yng Nghyfres Cyngherddau Cerddorfaol Neuadd Dewi Sant tan 6.30pm ar ddiwrnod y perfformiad. Rhaid casglu tocynnau ac fe'u rhoddir pan ddangosir cerdyn adnabod myfyriwr dilys.

**Grwpiau**
Rydym yn croesawu partïon o bob maint ac yn cynnig disgowntiau dethol i grwpiau o 10 neu fwy. I godi tocynnau, rhowch ganiad i'r Swyddfa Docynnau ar **02920 878444**.

Mae **Tocynnau Teulu** ar gael i rai digwyddiadau lle dangosir hynny. Mae'r tocynnau ar gyfer Teulu o 4 sy'n cynnwys uchafswm o 2 o oedolion ac o leiaf 1 plentyn dan 16 oed.

*Efallai na fydd y disgownt yma yn berthnasol.

**Plant**
Mae gostyngiadau a phrisiau arbennig yn berthnasol i lawer o ddigwyddiadau. Am resymau Iechyd a Diogelwch, bydd gofyn i bob plentyn oed cerdded fod â thocyn.

**Cyfeillion Neuadd Dewi Sant**
Gewch chi ostyngiadau dethol, copi o'r llyfryn gyda llythyr newyddion bob yn ddeufis ac achub y blaen yn codi tocynnau i'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau am ddim ond £18.00 y flwyddyn. Rhowch ganiad i Wendy Scanlon, Trefnydd y Cyfeillion ar 029 2087 8557 am ragor o fanylion.

**Ad-daliadau, Cyfnewidiau a Dyblygiadau**
Mae gan Neuadd Dewi Sant feddwl mawr o ymroddiad ei chyngherddwyr yn codi tocynnau'n fuan ac mae'n cydnabod bod pethau annisgwyl weithiau'n eu rhwystro nhw rhag dod. Mae modd cyfnewid tocynnau am unrhyw ddigwyddiad arall am yr un pris neu fwy (o dalu'r gwahaniaeth). Nid yw'r dewis cyfnewid ar gael i gyngherddau sydd wedi gwerthu pob tocyn. Os ydi'r digwyddiad yn rhan o dymor penodol (ee Proms, Bale etc), cynigir tocynnau a gyfnewidir oddi mewn i'r un tymor. Rhaid i docynnau ddod i law yn y Swyddfa Docynnau dim hwyrach na 48 awr cyn y perfformiad gwreiddiol. Mae yna dâl o £2.00 y tocyn am y gwasanaeth yma. (Gwaetha'r modd, ni ellir cyfnewid nac ailwerthu tocynnau a godwyd trwy Ganolfan Gofal Cwsmeriaid y BBC nac asiantaethau allanol yn Neuadd Dewi Sant.)

Fel arall derbynnir tocynnau i'w hailwerthu ar yr amod benodol mai tocynnau Neuadd Dewi Sant a werthir gyntaf ac nad oes unrhyw sicrwydd y cân nhw'u hailwerthu. Fedrwn ni ddim ailwerthu tocynnau oni bai bod y tocynnau gwreiddiol yn cael eu dychwelyd i'r Swyddfa Docynnau'n gyntaf. Cedwir 20% o werth unrhyw ailwerthu.

Ar wahân i'r ddau wasanaeth yma neu ganslo perfformiad, fyddwn ni ddim yn ad-dalu arian unwaith y bydd tocynnau wedi'u codi. Os canslir perfformiad rhaid dychwelyd tocynnau i'r fan lle codwyd nhw (e.e. Os codwyd nhw trwy un o'n hasiantaethau tocynnau cydnabyddedig, dylid eu dychwelyd nhw'n uniongyrchol atyn nhw).

Os bydd angen tocynnau dyblyg, codir tâl o £2.50 y tocyn am y gwasanaeth yma.


**Hwyrddyfodiaid**
Er mwyn peidio â tharfu ar neb, ni chaiff hwyrddyfodiaid fynd i'r awditoriwm ond bai bod saib priodol yn y perfformiad. Gellir gwylio'r cyngerdd ar deledu cylch cyfyng yn y bar ar Lolfa L3.

**Amodau gwerthu**
Cadwn yr hawl i wneud newidiadau yn y cast neu'r rhaglen os bydd angen. Mae'n bosib y gwaherddir mynediad dan rai amgylchiadau ac efallai na wneir ad-daliad. A wnewch chi fwrw golwg ar eich tocynnau pan godwch chi nhw i wneud yn siŵr eu bod yn iawn. Mae ad-daliadau fel y gwêl yn dda gan Reolwr y Swyddfa Docynnau.

**Yfed Cyfrifol**
A ninnau'n oedfan adloniant trwyddedig rydym yn hybu yfed cyfrifol. Os bydd unrhyw gwsmeriaid yn dangos arwyddion o feddwdod, ymosodedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol, oherwydd diod neu rywbeth arall, cânt eu hebrwng o'r adeilad ac ni chynigir dim ad-daliadau tocynnau.

# **Gwybodaeth** am godi tocynnau

**SUT I DDOD ATOM**
Rydym yng nghalon Caerdydd nesaf at Ganolfan Siopa Dewi Sant ar Yr Aes.




A wnewch chi ymorol bod eich ffôn symudol wedi'i ddiffodd yn ystod y perfformiad. Ni chaniateir tynnu lluniau na recordio unrhyw berfformiad.

**GWASANAETHAU I GWSMERIAID**

Os oes gennych chi ofynion eistedd arbennig a wnewch chi roi gwybod i'r Swyddfa Docynnau.

Mae cyfleusterau i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn yn cynnwys lloriau gwastad, cyfleusterau tai bach (yn y Bwyty ac ar Lefelau 2,3,4 a 5) a chownteri lefel isel yn y Swyddfa Docynnau, yr Ystafell Gotiau a Bar Lefel 3. Gall defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith godi tocynnau i seddi cefn y stalau am bris y tocyn rhataf sydd ar gael ar gyfer y perfformiad. Efallai y bydd cwsmeriaid ag anawsterau cerdded yn cael mai seddi'r stalau ydi'r mwyaf hygyrch.

Mae system is-goch ar gael yn yr awditoriwm (ac eithrio Rheng 5) a gellir ei defnyddio heb neu gyda chymorth clywed. A wnewch chi roi gwybod i staff y Swyddfa Docynnau pan fyddwch chi'n codi tocynnau a rhoddir cyfarwyddiadau defnyddio cyflawn pan gyrhaeddwch chi ar gyfer y digwyddiad.

Am wybodaeth ynghylch sut y gall cwsmeriaid â nam ar eu symudedd fynd i Neuadd Dewi Sant mewn cerbyd pan fyddan nhw'n mynd i berfformiad neu ddigwyddiadau penodol sydd heb fod yn berfformiadau, ewch i dudalennau Eich Ymweliad a Mynediad y wefan **www.stdavidshallcardiff.co.uk** neu roi caniad i'r Swyddfa Docynnau ar **029 2087 8444**. Cofiwch, er mwyn cydymffurfio â chytundeb rhwng Cyngor Caerdydd a Heddlu De Cymru, mai hyn a hyn o drwyddedau gollwng i gerbydau preifat a rannir ar gyfer pob perfformiad yn ôl y drefn y cyntaf i'r felin gaiff falu.

Mae gwybodaeth am ddigwyddiadau ar gael mewn fformatau Braille a phrint bras o'r ddesg ar lawr gwaelod y Neuadd, Llyfrgell Ganolog Caerdydd a Chymdeithas Deillion Caerdydd. I gael eich copi eich hun rhowch ganiad i'r Adran Farchnata ar 029 2087 8542.

Mae croeso i gŵn tywys. A wnewch chi roi gwybod i'r Swyddfa Docynnau pan fyddwch chi'n codi tocynnau.

Cynllun cenedlaethol newydd ydi **Hynt** sy'n gweithio gyda theatrau a chanolfannau celfyddydau drwy hyd a lled Cymru i ymorol bod pethau'n glir ac yn gyson o ran polisi tocynnau teg a mynediad. Mae gan ddeiliaid cardiau **Hynt** hawl i docyn yn rhad ac am ddim i gynorthwywr personol neu ofalwr yn Neuadd Dewi Sant a'r holl theatrau a chanolfannau celfyddydau sy'n rhan o'r cynllun. Ewch i **www.hynt.co.uk** i gael gwybodaeth am y cynllun ac i ymuno.